



Ffiliffest 2015

Mwy o luniau Ffiliffest ar dudalen un deg tri.

Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt **Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428/ 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis **Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Ymgynghorydd:** Ann Lewis

Cynorthwy-ydd: Jan Penney
Lowri@mentercaerffili.org

Digwyddiadur: Lowri Jones

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Gwilym Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi. Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Cwmni 

Cyfarfod Blynyddol

Nos Lun, Medi'r 14eg am 7:30

Ysgol Gymraeg Caerffili (Safle'r Gwyndy)

Dewch yn llw i fynegi barn

Cymdeithas Hanes Cwm Ni

Pan fyddwn yn edrych am effeithiau parhaol ymweliad eisteddfod fe fydd un peth yn sefyll allan wedi gŵyl Llancaeath Fawr sef cymdeithas newydd.

Yn ystod yr wythnos olaf ym mis Mai daeth gwybodaeth am Gymdeithas Hanes ar gyfer dysgwyr. Sefydlwyd hon beth amser yn ôl ym Mhen y Bont ar Ogwr a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ers hynny. Y nod, wrth gwrs, yw darparu ar gyfer pobl sydd wedi bod wrthi'n dysgu Cymraeg ac yn chwilio am weithgaredd i fireinio'u sgiliau. Beth allai fod yn well, felly, na chynnal sesiynau hanes, yn enwedig hanes lleol?

Wythnos neu ddwy wedi'r eisteddfod cyfarfu grŵp o bobl i edrych i mewn i'r posibiladau o gynnal cymdeithas o'r fath yn sir Caerffili. Cafwyd arweiniad cadarn gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gwent. Cytunwyd mai yng Nghlwb Rygbi Penallta, ar ddydd Iau cyntaf bob mis am 7y.h. y cynhelid y sesiynau. Bydd y gymdeithas yn cael ei lansio ar y 1af o Hydref.

Mae Mair Lenny Turner wedi mynd ati i wneud trefniadau gyda'r clwb a hefyd i wahodd siaradwyr addas. I'r perwyl hynny mae Dr Elin Jones, Y Parch Ddoctor R. Alun Evans a Dafydd Islwyn eisoes wedi derbyn gwahoddiad i annerch y gymdeithas newydd.

Dr Elin fydd yn dechrau arni yng Nghlwb Penallta, ddydd Iau 1af o Hydref am 7

Gobeithir y daw siaradwyr mwy rhugl i gefnogi'r sesiynau hyn yn ogystal, efallai, â'r sawl sy'n teimlo bod eu Cymraeg ychydig yn rhydllyd.



!Dagrau o Lawenydd!

Ie, dagrau o lawenydd groesawodd y cyhoeddiad bod Ysgol Gymraeg newydd yn dod i



Gasnewydd! Gwelir uchod rhai o'r ymgyrchwyr buddugoliaethus ddiwedd cyfarfod Cabinet y ddinas, fore Gwener 17eg o Orffennaf.

Bu hi'n frwydr galed dros dair blynedd a mwy i sicrhau y bydd plant Casnewydd yn gallu derbyn eu haddysg uwchradd, drwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn y ddinas. Fe leolir yr ysgol newydd sbon, a fydd yn ddigon mawr i dderbyn 900 o blant yn y pen draw, y drws nesaf i Ysgol Uwch y Dyffryn. Bydd y ddwy ysgol, felly, ychydig y tu ôl i Dŷ

Tredegar a safle dau ymweliad gorfoleddus yr Eisteddfod Genedlaethol â'r ddinas, yn 1988 ac yn 2004.

Daeth Ysgol Gymraeg gyntaf y ddinas, Ysgol Gymraeg Casnewydd, yn nwyrain y ddinas, yn sgil Gŵyl 1988. Wedyn, wedi peth aros, agorwyd Ysgol Ifor Hael yn yr ochr orllewinol ac, yn dynn ar sodlau honno, Ysgol Bro Teyrnnon.

Sgwrs Gyhoeddus WEA Caerffili

Daeth Dr. Elin Jones i'n plith ddiwedd Gorffennaf. Dechreuodd gyda'i chefnidir yn y cwm lle roedd hi'n nabod dim ond dau o blant oedd yn siarad Cymraeg. Symudodd ymlaen at ei haddysg yn Ysgol Lewis i Ferched lle astudiodd Gymraeg fel iaith estron! Wedyn Rhydychen, Aberystwyth, a gyrfa yn dysgu yng Nghwm Rhymni cyn symud i Sain Ffagan.

Siaradodd am ei bywyd priodasol hapus cyn salwch meddyliol a marwolaeth ei gŵr, Gwyn. Disgrifiodd ei gwaith gwirfoddol gyda'r elusen Hafal.

Teitl ei sgwrs oedd "Portreadu gwallgofrwydd mewn llenyddiaeth". Pwnc dyrys a dwfn ond cawsom dinc o hiwmor, diolch Elin.

Daeth â deuddeg llyfr gyda hi a dyfynnodd o'r Beibl, barddoniaeth gynnar, storïau byrion, a nofelau diweddar. "Sunbathing in the Rain" gan Gwyneth Lewis, meddai Elin, yw'r llyfr byddai hi'n cymeradwyo ar gyfer unrhywun sy'n dioddef o iselder, yn nabod rhywun sy'n mynd trwy'r felin neu jyst er mwyn dysgu mwy am ieched meddwl.



Diolch i bawb am fynychu, am ymuno yn y drafodaeth ac am gyfrannu at waith Hafal. Fel y gwelwch yn y llun, bu Elin wrth ei bodd gyda'r cyfraniad hael.

Llongyfarchiadau



Pleser i ni yn "Cwmni" yw cael gwybod am lwyddiannau disgyblion nad ydynt yn mynychu'n Ysgolion Cymraeg fel sy'n digwydd yn aml yn eisteddfod yr Urdd.

Eleni rhoddwyd gwobr i Cerys Jones o Fleur-de-Lys am ei llwyddiant academiaidd ym Mhrifysgol Abertawe. Astudiodd hi ryddiaith a barddoniaeth yn ogystal â dysgu tipyn am hanes Cymru a'i sefydliadau. Ym marn Cerys: 'Mae'r adran wedi helpu i wneud fy nghwrs mor bleserus. 'Mae Cerys wedi dilyn cwrs 4 blynedd yn y brifysgol oherwydd ei bod hi wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith ac mae wedi graddio â gradd dosbarth cyntaf!'

Aeth Cerys i Ysgol Gynradd Fleur-de-Lys ac Ysgol Gyfun y Coed Duon. Wedyn astudiodd y Gymraeg (ail iaith), Cemeg, Mathemateg a Mathemateg Bellach yng Ngholeg Gwent Crosskeys ar gyfer lefel 'A'.

Diwedd Cyfnod



Roedd yr 16eg o Orffennaf eleni yn garreg filltir yn hanes Addysg Gymraeg yn ardal Caerffili wrth i ddwy o gonglfeini'r Mudiad Meithrin benderfynu rhoi'r ffidil yn y to. Bu "Anti Mary" (Mrs Mary Evans) yn rhan annatod o Gylch Meithrin Tonyfelin am gyfnod anghredadwy o 35 mlynedd.

A bu "Anti Dawn" (Mrs Dawn Morton) yn ei swydd yno am 22 o flynyddoedd, a hynny wedi iddi fod yn gweithio gyda'r Mudiad am nifer o flynyddoedd cyn hynny.

Agorodd y Cylch Meithrin ei ddrysau pan dderbyniodd y diweddar Mrs Lili Richards y disgybl cyntaf yn 1967. Dychwelodd y disgybl hwnnw i dorri'r gacen wrth i'r Cylch ddathlu ei 21ain pen-blwydd. Bu Mrs Brenda Morris yn aelod blaengar wedi hynny. Ers hynny cymerodd cannoedd o blant eu camau cyntaf tuag at ddysgu'r Gymraeg yno ac i "Anti Mary" a "Anti Dawn" mae'r diolch am eu helpu!

Fore Mawrth, 14eg o Orffennaf, roedd gan y seremoni flynyddol o gyflwyno tystysgrifau arwyddocâd newydd wrth i rieni a rhieni-cu fynychu'r digwyddiad i achub ar y cyfle i ddiolch i'r ddwy "Anti" am ei gwaith arwrol am cymaint o flynyddoedd. Derbyniodd y ddwy lawer o flodau ac anrhegion gan deuluoedd gwerthfawrogl.

Ond nid y rhieni yw'r unig rai sy'n gwerthfawrogi'r gwaith a wneir yn Nhonyfelin. Derbyniodd y Cylch glod uchel gan Arolygwyr hefyd. A dweud y gwir, Tonyfelin oedd yr unig Gylch yn y sir i'w ddyfarnu yn "Ardderchog" wedi Arolwg 2013. Ac ni chyflawnwyd hyn heb gryn ymdrech, gan fod yr "Antis" yn y Cylch yn gweithio am oriau wedi i'r plant fynd adref. Gwelir hwy'n aml wrthi'n cynllunio a threfnu yn ogystal â mynychu cyrsiau.

Mynegwyd boddhad y rhieni mewn nifer o ffyrdd. Dewisodd rhai o'r rhieni beidio â gyrru eu plant i ddosbarth meithrin eu hysgol tan fod y plant yn hŷn. Teimlodd llawer bod awyrgylch teuluol y Cylch yn fwy priodol ar gyfer plant mor ifanc. Nid y naws deuluol yn unig sy'n apelio ond hefyd y ffaith bod y strwythur a'r trefniadau mor gadarn a diogel. Ac mae'n amlwg bod y rhieni hwythau'n rhannu'r bodlonrwydd hwn.

Teimla rhieni yn aml yn rhwystredig o orfod gwneud cais dros blant sydd mewn Dosbarth Meithrin ysgol cyn iddyn nhw allu mynd ymlaen i'r Dosbarth Derbyn. Ond y rheswm am hyn yw rhoi'r rhyddid i rieni allu peidio â gyrru eu plant i'r ysgol yn gynt na phryd. Mae'r system yn golygu nad oes rhaid symud y plentyn dim ond er mwyn diogelu lle yn yr ysgol maen nhw'n dewis.

Clywyd athrawon ein Hysgolion Cymraeg, fwy nag unwaith, yn tystiolaethu fod plant sy'n dod atyn nhw o Gylch Tonyfelin a *stamp* digamsyniol yn perthyn iddyn nhw. Ac mae'r Cylch yn dal i dyfu, yn rhannol am ei fod bellach yn darparu ar gyfer plant o Fedwas, Tretomas a Machen ers i Gylch Meithrin yr ardal honno gau. Hefyd, mae Tonyfelin yn gallu derbyn plant o du allan i'w dalgylch, rhywbeth nad yw rhan fwyaf ein Hysgolion Cymraeg bellach yn gallu ei wneud. Ac yn sicr, dydy rhieni ddim yn gwarafun talu am y gwasanaeth gwych.

Ein pleser nawr yw mynegi'n diolch i Mary a Dawn gan ddymuno ymddeoliad diddig i'r ddwy. Mae'r ddwy yn edrych ymlaen at dreulio mwy o amser gyda'u hwyrion. A ni'n gwybod, ond d'yn ni, y byddan nhw'n gwneud hynny ag arddeliad!

Newyddion Bro Allta

Mae'r amser wedi cyrraedd unwaith eto i ddechrau pennod newydd ym mywyd Bro Allta. Mae'r cyfnod wedi bod yn un prysur iawn, gyda rhai aelodau staff yn ffarwelio â'r ysgol ac wynebaw newydd yn ymuno â'n teulu. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un brysur a llwyddiannus iawn i'r ysgol a hoffem ddiolch i deulu Bro Allta a'r gymuned leol am eu cyfraniad sylweddol i'r llwyddiant hynny.

Ffarwelio

Ar ôl tua 20 mlynedd fel athrawes ym Mro Allta, mae Mrs Maitland, am resymau personol, wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w swydd fel athrawes barhaol am y dyfodol agos.

Gwnaeth gyfraniad anferthol i llwyddiant yr ysgol hon dros y blynyddoedd a byddwn yn colli ei chwmni yn fawr. Mawr obeithiwn y bydd yn ymweld â'r ysgol yn gyson - peidiwch a chadw'n ddieithr Mrs Maitland!

Bu Mrs Christine Angel yn aelod gwerthfawr o deulu Bro Allta o'r cychwyn cyntaf ond erbyn hyn, gyda'i theulu estynedig, mae ei hymrwymiad fel mam-gu ofalgar yn flaenoriaeth iddi.

Er hyn, byddwn dal i alw arni i ddysgu o dro i dro - felly peidiwch â gorlenwi eich dyddiadur Mrs Angel!

Daw cytundeb Miss Roles i'w derfyn naturiol ar ddiwedd y tymor. Bu'n gynorthwy-ydd dan hyfforddiant ym Mro Allta ac yn aelod dros dro o'r tîm addysgu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolchwn iddi am ei hymrwymiad i'w gwaith a dymunwn bob llwyddiant iddi.

Mae ein hysgrifenyddes, Mrs Hughes, eisoes wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Dymunwn yn dda iddi a'i theulu yn ystod y cyfnod cyffrous yma.

Croeso i deulu Bro Allta!

Er ein bod yn ffarwelio â hen ffrindiau, byddwn yn croesawu aelodau newydd i deulu Bro Allta.

Miss Emily Lewis – athrawes dosbarth 'O Fôn i Fynwy' (BI 4 a 5)

Mr Morgan Griffiths – athro dosbarth 'Y Cewri' (BI 3)

Mrs Tracey Fudge – gofalfraig newydd yr ysgol

Mrs Jaqueline Davies – clerc dros dro

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weithio gyda'r tîm newydd, ac yn siŵr y bydd hi'n flwyddyn ysgol newydd llwyddiannus i Bro Allta.

Ymweliadau Diwedd Blwyddyn

Bu nifer o ymweliadau difyr yn ystod wythnosau olaf tymor yr Haf! Parti Eirth Bach i'r dosbarth meithrin ac ymweliad â 'Park Play' i'r dosbarth derbyn. Aeth blwyddyn 1 i'r sinema yn y Coed Duon ac yna mwynhau yn yr heulwen ym mharc Ystrad Mynach yn y prynhawn.

Ymweliad â 'Jambori' Martin Geraint fu i flwyddyn 2, lle bu llawer o hwyl a digon o ganu! Aeth blwyddyn 3-5 hefyd i sinema'r Coed Duon i weld film 'Minions' a theithiodd disgyblion blwyddyn 6 i Barc Saffari 'West Midlands'. Diolchwn yn fawr i'r disgyblion i gyd am eu gwaith caled dros y flwyddyn a'u hymddygiad ym mhob un o'r ymweliadau hyn. Roeddent yn llawn haeddu diwrnod o hwyl ac ymlacio!



Newyddion Ysgol y Lawnt – Bethan Davies



Taith Gerdded Noddedig Cyngor yr Ysgol

Cymerodd dros 120 o ddisgyblion, rhieni a staff ran mewn taith gerdded noddedig 5 cilomedr o gwmpas llyn Parc Bryn Bach. Trefnwyd y daith gerdded gan Gyngor yr Ysgol er mwyn codi arian ar gyfer adnoddau newydd i'r iard. Roedd Asda yn Nowlais a Morrisons yng Nglyn Ebwy yn garedig iawn wrth roddi ffrwyth a dŵr i bawb a gymerodd ran. Codwyd dros £600 tuag at ymgyrch Cyngor yr Ysgol!

Ymweliad Frankie Jones

Cafodd Ysgol y Lawnt ymwelydd arbennig yn ddiweddar. Daeth Frankie Jones i'r ysgol i sôn am ennill y fedal aur yng nghystadleuaeth y Gymanwlad y llynedd. Roedd y disgyblion wedi dwlu ar weld Frankie yn arddangos ei doniau gymnasteg a gofyn cwestiynau iddi.

Tîm Rygbi

Llongyfarchiadau i fechgyn y tîm rygbi sydd wedi ennill pencampwriaeth y sir. Roedd y bechgyn wedi ennill pob gêm i gyrraedd y rownd derfynol yn Ysgol Lewis i Fechgyn. Yn y rownd derfynol curodd y bechgyn Ysgol Gymraeg Caerffili o 6 chais i 1. Mae tlws hyfryd gan yr ysgol i ddangos holl waith caled y bechgyn!

Tîm pêl-droed

I orffen blwyddyn lwyddiannus o chwaraeon yn Ysgol y Lawnt enillodd tîm pêl-droed 7 bob ochr gystadleuaeth 'Cwpan Croeso'. Yn ogystal, daeth tîm pêl-droed y Lawnt yn ail allan o 40 tîm yng nghystadleuaeth y clwstwr yn Ystrad Mynach yn ddiweddar. Da iawn fechgyn!

Eisteddfod yr Urdd 2015

Mwynheuodd disgyblion y Lawnt gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llancaiach Fawr yn ddiweddar. Roedd disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn nifer o gystadlaethau gan gynnwys y Gân Actol, unawd dan 8, parti unsain, parti llefaru, coginio, dawnsio disgo a chelf. Roedd pawb yn dathlu pan enillodd y wefan a grewyd gan ddisgyblion blwyddyn 4 y wobr gyntaf a daeth Georgia Williams, blwyddyn 3 yn drydedd yn y gystadleuaeth ffeltio.

Codi arian am ddŵr

Roedd e'n dristwch mawr i aelodau'r eco-bwyllgor pan ddysgon nhw fod llawer o blant yn y byd yn gorfod cario bwcddi o ddŵr am filltiroedd oherwydd nad oes pibellau yn cario dŵr glan i'w pentrefi.

Ar ôl iddynt gynnal gwasanaeth o flaen gweddill yr ysgol, gofynnwyd i bawb gasglu arian i'r elusen Water Aid mewn cadw-mi-gei bob tro maen nhw'n defnyddio dŵr yn y tŷ. Aeth Blwyddyn 5 mas ar yr iard gyda llawn bwcdd o newid i greu llun o ddŵr glan yn rhedeg mas o'r tap. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £168.82, sy'n golygu bod yr ysgol wedi talu am 84m o biben. Rydyn ni'n gobeithio bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn Affrica.



Parti Pum Mlynedd Masnach Deg yn y Lawnt

Yn ddiweddar, roedd disgyblion y Lawnt yn dathlu'r ffaith bod pum mlynedd wedi mynd heibio ers i'r ysgol dderbyn statws Masnach Deg.

Yn ystod yr amser hwnnw, mae'r ysgol wedi datblygu perthynas glos gyda Martha Musonza Holman, sy'n dod yn wreiddiol o Zimbabwe, er ei bod hi wedi ymgartrefu yng Nghymru erbyn hyn. Roedd e'n naturiol felly, i'r plant ei gwahodd i'r ysgol i ymuno yn y dathliadau.



Dros y blynyddoedd, mae'r disgyblion wedi mynd ati yn frwd i godi arian ar gyfer projectau mewn pentref bychan gwledig yn Zimbabwe. Ddwy flynedd yn ôl, llwyddodd y plant i godi cyfanswm o £800 trwy weithio'n galed i'w rhieni gartref. Roeddent yn awyddus iawn felly, i glywed oddi wrth Martha am lwyddiant y project. Braf iawn oedd gweld lluniau o'r pentrefwyr gyda'r ieir a chlywed sut yr oedd yr ieir wedi gwella bywydau'r pentrefwyr. Bydd yr arian a godwyd gan y disgyblion eleni yn mynd at adnoddau ar gyfer llyfrgell newydd yn ysgol Chinamhora.

Yn ystod y bore, cafodd plant Blwyddyn 5 lawer o hwyl wrth ddysgu sut i ddrymio, canu a dawnsio yn steil unigryw Zimbabwe. Erbyn y prynhawn, roedd y grŵp newydd o ddrymwyr brwd yn barod i arwain ein parti. Ymgasglodd yr ysgol gyfan ar yr iard ar brynawn heulog i ganu "Pen-blwydd Hapus" i Fasnach Deg, cyn gorymdeithio o flaen cynulleidfao o rieni a chefnogwyr yn eu sgarffiau lliwgar. Ar ôl perfformiad bythgofiadwy gan blant Blwyddyn 5, roedd pawb wedi ymuno yn yr hwyl a sbri, ac yn dawnsio i guriad y drymiau.

E-ddiogelwch

Mae disgyblion blwyddyn 4 wedi bod yn brysur iawn yn dysgu am e-ddiogelwch a sut i fod yn ffrind da ar lein. Roeddent yn defnyddio *ipads* a *hudls* er mwyn creu animeiddiadau ar gyfer cystadleuaeth *Childnet*.

Cystadleuaeth Tennis



Bu pedair merch o Ysgol y Lawnt yn brysur yn chwarae tenis yn ddiweddar. Aeth y 4 i Ganolfan Tennis David Lloyd yng Nghaerdydd a chawson nhw hwyl yn cystadlu yn erbyn disgyblion o ysgolion De Cymru.

Ymweliad Rhiannon

Braint oedd croesawu'r arlunydd enwog Rhiannon i'r ysgol yn ddiweddar. Roedd hi yma am dridiau yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 5 er mwyn creu darn o waith ar gyfer pabell groeso Eisteddfod Llancaiach. Roedd y plant wrth eu boddau yn darlunio a pheintio ac roedd y darlun terfynol yn wych!

Posau'r Plant gan Mary Jones

Allwch chi ddod o hyd i naw gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Ysgrifennwch ffurf gywir y geiriau cymysg hyn wrth ochr pob un.

dime _____ losyg _____ roath _____ throbad _____

siwger _____ llander _____ fyllaur _____ fallytse _____

Mae'r atebion i'r ddau bôs ar dudalen 15

Ffarwelio â Hen Adeilad



Bydd plant a staff y Ysgol Gymraeg Caerffili yn ymuno ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar safle'r Gwyndy ym mis Medi, 45 mlynedd ers sefydlu'r ysgol yn Stryd Parcyfelin. Diolchwn i Mrs Dorothy Morgan am gael benthyg y llun o'r staff a ddaeth o Ysgol Ifor Bach i agor yr ysgol y flwyddyn honno. A dyma nhw....

*Ceri Hughes, Ivy Pedrick, Heulwen Jones
Lynette Jones, Idwal Jones (Pennaeth), Dorothy Morgan*

Ac mae hanes sefydlu'r ysgol yn un diddorol. Dechreuwyd Ysgol Gymraeg gyntaf Caerffili yn yr union adeiladau ym mis Ionawr 1960 pan ddechreuodd Mrs Moyra Davies ddosbarth gyda 11 o blant dan brifathrawiaeth T. H. Williams. Wrth i'r dosbarth dyfu daeth adeiladau Ysgol Uwchradd Fodern Senghenydd yn wag yn 1963 ac aethpwyd

yno i sefydlu Ysgol Gymraeg Caerffili. Ond wedi agor yr ail ysgol, a hynny yn y dref, bu'n rhaid ail-enwi'r sefydliad yn Senghenydd yn Ysgol Ifor Bach. Daeth yr adeiladau yn Stryd Parcyfelin ar gael yn hynod gyfleus wrth i'r achos yn Senghenydd flodeuo. Ac fel hyn y bu...

Sefydlwyd un o Gymdeithasau Tai (Housing Association) Prydeinig cyntaf ym Mhontygwindy ganol yr 1960au a dechreuwyd codi tai Churchill Park. Ond y bwriad oedd ymestyn yr ystad i'r tir sydd nawr yn cynnwys archfarchnad Asda. Wrth ymateb i'r galw am ystâd mor enfawr cododd yr awdurdod addysg ddwy ysgol ar gyfer y trigolion, Ysgol Iau ac Ysgol Babanod Plas y Felin. Ond wrth i'r Gymdeithas Dai fethu â chyrraedd y targed gwreiddiol, gwelwyd nad oedd digon o blant i lenwi'r ysgolion newydd. Beth oedd i'w wneud felly? Wel, penderfynwyd cau Ysgol Gynradd y Gwyndy a'i throi yn Ysgol Gymraeg, â'r plant lleol wedyn yn mynychu'r ysgolion newydd yn Churchill Park!

Mae'r nos Wener olaf ond un wedi bod yn noson barbiciw yr ysgol ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Ond dyma'r un fwyaf - o bell ffordd. Gwerthwyd 500 o docynnau ar gyfer noson Rhostio Twrch ym muarth yr ysgol nos Wener, 10fed o Orffennaf i nodi'r achlysur.

Y Cadeirio

Diwrnod hanesyddol oedd dydd Mawrth, 14eg o Orffennaf, yn Ysgol Gymraeg Caerffili wrth i'r ysgol gynnal y Seremoni Gadeirio flynyddol am y tro olaf yn yr hen adeilad. Diwrnod i'w nodi, hefyd, i'r bardd Dafydd Islwyn, un o gyn-athrawon yr ysgol, a oedd erbyn y bore hwnnw wedi dod i'r ysgol i feirniadu am fwy o flynyddoedd na'r rhia y bu'n athro yno! Roedd felly yn sefyll o flaen y plant, yn y neuadd, am y tro olaf wedi 36 o flynyddoedd.

Yn harddu'r llwyfan roedd Cadair newydd sbon. Gwnaeth y gofalwr, Roger Skidmore, sydd ar fin ymddeol, y Gadair, un a addurnwyd gan Mrs Zane Phillips. Bydd y Gadair newydd yn cymryd ei lle yng nghyntedd newydd yr ysgol ym mis Medi.

Roedd Dafydd Islwyn wedi'i blesio gan y 38 stori a ddaeth i law, a rheiny wedi'u hysgrifennu ar y testun "Yn y Tywyllwch". Diolchodd y beirniad i'r plant am ymwrthod â'r term "ffôn symudol" a phledio arnynt, o hyn ymlaen, i beidio â defnyddio'r trosiad, "pili pala yn y stumog". Peth rhyfedd yw mympwy beirniad!!

Neilltuodd y beirniad 10 o'r 38 ymgais i blith y goreuon. Hoffodd stori *Siôn Corn* am bêl-droediwr, a'r disgrifiad o hwnnw'n torri ei goes. Ond, er hynny, *Sali Mali* (Non Barrett) ddaeth yn drydydd. Roedd Dafydd Islwyn yn uchel ei glod o stori'r *Caws Mawr* (Oliver Scarfe) oedd wedi'i seilio ar groesfan zebra yng Nghaerffili gan ennill i'r awdur yr ail safle. Ond y gorau oedd *Dan Biggar* am stori am forgrug mewn peiriant golchi. A Leah Coombes, felly, aeth â'r Gadair fach adre i'w chadw.



Llongyfarchiadau



Braf yw gallu cyhoeddi priodas un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.. Geraint, yw'r ifancaf o bum "plentyn" Mrs Rhian a'r diweddar Ddoctor Dafydd Huws, Ffwernes Blwm.

Priododd Geraint â Manon (Humphreys gynt) yn y Tabernacl, Efail Isaf ar yr 31ain o Orffennaf. Mae Manon o Bentre'r Eglwys ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Rhydfelen.

Mae Geraint yn athro Daearyddiaeth yn Ysgol Plasmawr, Caerdydd tra bo Manon yn gweithio fel swyddog i Gomisiynydd y Gymraeg, hefyd yng Nghaerdydd. Cyfarfu'r ddau tra'n fyfyrwyr yn y brifysgol yn Aberystwyth ac maent, wedi ymgartrefu yn ardal Treganna'r ddinas.

.Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf ein blwyddyn 2014-2015 ar y 18fed o Fai, cawsom y fraint o groesawu'r Athro Eleri Pryse o Adran Ffiseg, Prifysgol Aberystwyth. Gweithred gyntaf ein Cadeirydd oedd mynegi llongyfarchion yr aelodau i'n gwetai ar yr anrhydedd o ennill Cadair Bersonol yn Hydref 2014. Dyfarnwyd hyn ar sail disgleirdeb ei hymchwil, safon ei gofal dros fyfyrwyr ymchwil a safon uchel ei darlithoedd i is-raddedigion, y cyfan dros oddeutu chwarter canrif o wasanaeth yn y brifysgol.

Ganed Eleri yn Nolgellau. Derbyniodd ei haddysg gynradd mewn ysgolion yn Nolgellau, Bangor ac Aberystwyth, cyn symud i Ysgol Penweddig am ei haddysg uwchradd. Graddiodd mewn ffiseg yn Aber ac yno y bu ers hynny, gan ymuno â staff yr adran a graddol ddringo drwy haenau'r adran i'w safle bresennol.

Maes ei harbenigedd yw nodweddion yr ïonosffer, sef, yr atmosffer trydanol, a'u dylanwad ar donnau radio y Ddaear. Mae'r ïonosffer yn dechrau ar uchder o tua 60 cilomedr; ar uchder o tua 300 cilomedr mae ar ei dwysaf.

Ers blynnyddoedd cynnar ei gyrfa ymchwil bu Eleri yn canolbwyntio ar dechnegau o geisio nabod strwythur yr ïonosffer. Yn enwedig bu'n ddylanwadol iawn ar ddatblygu techneg arbrofol newydd, o'r enw tomograffi, i roi prawf ar syniadau damcaniaethol oedd yn deillio o efelychiadau (simulations) cyfrifiadurol o stwythur yr ïonosffer.

Yn y cyfarfod cawsom gipolwg gyfoethog ar y rhyfeddodau sy uwch ein pennau'n bell i ffwrdd, ond sy'n effeithio'n arw ar hwyluso'r moddion cyfathrebu ar y Ddaear, moddion y byddwn yn eu cymryd yn ganiatol erbyn hyn.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y drydedd nos Lun o Fedi yn ein man cyfarfod arferol ym Mhrif Adeilad y Brifysgol i gychwyn am 19.30. Croeso, croeso nôl, beth am fentro am y tro cyntaf?

Dr Neville Evans



Torri'r dywarchen g
wedyr



gynta a'r hyn ddaeth
n.....



Eisteddfod y Gymoedd

Nos Wener, Hydref 16eg am 5 o'r gloch Ysgol Lewis i Ferched Ystrad Mynach

Beirniaid Cerddoriaeth Osian Rowlands ac
Aled John

Beirniad Llefaru Ifan a Margaret
a Llenyddiaeth Ieuenctid Roberts

Beirniad Llenyddiaeth Agored Llion Roberts

Beirniad Dawns: Marie Evans

Beirniad Ffotograffiaeth Gwyneth a Gwyn
Davies

Cyfeilydd: Bethan Phillips

Ysgrifenyddion

Eirlys a Gwilym Thomas 01443812820
Pen Caer,
73 Heol Pengam, gwilymt@sky.com
Ystrad Mynach CF82 8AB

PLANT a IEUENCTID

Cerddoriaeth

- 1.Unawd hyd at BI 4 Hunan-ddewisiad
Medal a thocyn llyfr
- 2.Unawd BI 5 a 6 Hunan-ddewisiad
Medal a thocyn llyfr
- 3.Unawd BI 7-9 Hunan-ddewisiad
£8 £5 £3 + medal
- 4.Unawd BI 10-13 Hunan-ddewisiad
£8 £5 £3 + medal
(unrhyw arddull ag eithrio sioe gerdd)
5. Deuawd oed cynradd/ uwchradd
£15 £10 £5
- 6.Unawd offerynnol hyd at BI 6 [hyd at
3 munud] £8 £5 £3 +medal
- 7.Unawd offerynnol BI 7-9 [hyd at
5 munud] £8 £5 £3 +medal
- 8.Unawd offerynnol BI 10+ [hyd at
5 munud] £10 £8 £5 +medal
9. Ensemble offerynnol 2-8 mewn nifer
£15 £10 £5+medal
- 10.Côr Cynradd unrhyw arddull [hyd at
5 munud] Cwpan£100 £50 £30
- 11.Côr Ieuenctid–unrhyw arddull [hyd at
5 munud] Cwpan£100 £50 £30

Llefaru

- 12.Hyd at BI 4 Hunan-ddewisiad
Medal a thocyn llyfr
- 13.BI 5 a 6 Hunan-ddewisiad
Medal a thocyn llyfr
- 14.BI 7-9 Hunan-ddewisiad
£8 £5 £3 +medal
- 15.BI 10 – 13 Hunan-ddewisiad
£8 £5 £3 +medal

Ail iaith

16. Llefaru Unigol ail iaith oed cynradd £8
£5 £3 + medal

Dawns (Ieuenctid ac Agored)

- 17.Dawns unigol- unrhyw gyfrwng [hyd at
3 munud] £10 £8 £5
- 18.Dawns i barti – unrhyw gyfrwng [hyd at
5 munud] £30 £20 £10

Llenyddiaeth

- 19.Darn creadigol oed cynradd, barddoniaeth
neu ryddiaith £5 £3 £2
- 20.Darn creadigol oed uwchradd,
barddoniaeth neu ryddiaith £8 £5 £3
- 21.Ail iaith oed uwchradd - Darn Creadigol
£8 £5 £3

**** rhoddir Cadair fechan i'r gorau yng
nghystadleuthau 19 - 21****

Derbynir copiau caled yn unig

AGORED

Cerddoriaeth

22. Unawd o Sioe Gerdd £10 £8 £5
- 23.Côr/Parti Agored – unrhyw arddull [hyd at 7
munud] Cwpan £100 £50 £30

Ail iaith

- 24 Eitem i barti na chymer mwy na 5 munud
i'wpherfformio (parti canu/ llefaru / sgets ayb)
£15 £10 £5

Llenyddiaeth

- 25.Cerdd heb fod dros 50 llinell
"Draw dros y don" £25
- 26.Englyn "Patagonia" £25
- 27.Erthygl addas i bapur bro £10
- 28.Limerig: yn cynnwys y llinell
"Aeth Gwenda i'r gawod un noson" £5
29. Gosodir llinell goll i'w hateb ar y noson £5

Derbynir copiau caled yn unig

Ail iaith

- 30.Ail iaith – Darn Creadigol £10

Ffotograffiaeth

31. Cyfres o bedwar llun, lliw neu ddu a gwyn.
–Pobl £10 £8 £5

Sylwer

**Dylid cystadlu ar un offeryn yn unig yng
nghystadleuaeth 6, 7 ac 8**

**Dylid cystadlu unwaith yn unig yng
nghystadleuaeth 5**

**Bydd y cyfeilydd Swyddogol yn cyfeilio i
bob cystadleuaeth unawd/deuawd/triawd
ag eithrio offerynnol a'r sioe gerdd.**

**Enwau a chopiau i'r ysgrifenydd erbyn
Hydref 9fed**



Ar Fehefin 27ain cynhaliwyd gŵyl haf flynyddol Menter Caerffili am y chweched tro. Croesawyd Ffilifest i Gastell Caerffili unwaith eto a bu'r lle yn orlawn gyda dros 2,500 o bobl yno - mwy na dwywaith y nifer o fynychwyr na'r flwyddyn gynt.

Agorwyd y diwrnod am 11 y.b. gydag arddangosfa enfawr o ddawnsio gwerin gan 13 o ysgolion cynradd y sir, rhai cyfrwng Cymraeg a rhai Saesneg. Cyn cyrraedd y castell i ddawnsio, bu'r plant yn

gorymdeithio o gwmpas y castell gyda baneri lliwgar eu hysgolion wedi'u tywys gan athrawon a gwirfoddolwyr yr ŵyl. Yn dilyn y ddawnsio cafwyd rhaglen lawn ac amrywiol o berfformiadau ar lwyfan Ffilifest gan gynnwys Martyn Geraint, y band byw Calfari, band pres BTM, Côr Mynydd Islwyn, Ysgol Ddawns Machen, Ysgol Bro Sannan, Band Samba Caerffili a grŵp ukulele Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Bu'r haul yn tywynnu arnom drwy'r dydd gyda theuluoedd yn aros i gael bwyd ar y glaswellt wrth fwynhau'r perfformiadau byw, crwydro'r stondinau yn y Neuadd Fawr, mwynhau teithiau tywys o gwmpas y castell a chymryd rhan mewn gweithdai celf a chrefft. Ar waelod y castell roedd ardal chwaraeon enfawr dan arweiniad yr Urdd.



Mae'r ŵyl bellach yn uchafbwynt blwyddyn y

Fenter, a mawr obeithiwn fod pobl leol yn gweld Ffilifest fel dathliad o Gymreictod a threftadaeth y Sir. Ein bwriad oedd cynnig amrywiaeth o weithgareddau at ddant pawb a mawr




yw ein dyled i'r tîm mawr o wirfoddolwyr ar y diwrnod, ni fyddai wedi bod yn bosib llwyfannu'r ŵyl heb eu cefnogaeth a'u cyfraniad nhw. Diolch hefyd i'n partneriaid a'n noddwyr sy'n rhan allweddol o gynllunio a threfnu'r ŵyl gan gynnwys CADW, Castell Caerffili, Brecon Carreg, Cyngor Tref Caerffili, Cyngor B. S. Caerffili, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent a'r Urdd. Bethan Jones, Swyddog Datblygu Cymunedol Menter Caerffili fu'n bennaf gyfrifol am drefniadau Ffilifest yn ogystal â Ffion Rees y swyddog blaenorol. Diolch yn fawr i'r ddwy

am eu gwaith sylweddol ac am drefnu gŵyl mor llwyddiannus. Mae trefniadau ar gyfer Ffilifest 2016 ar y gweill eisoes ac rydym yn awyddus iawn i glywed beth hoffech chi weld yn digwydd yn Ffilifest, felly cysylltwch â'r Fenter i leisio barn. Diolch yn fawr iawn i bawb a fynychodd a gobeithio i chi fwynhau cymaint â ni!

Adnabod David Thomas

Mae David Thomas, neu Dai fel caiff ei adnabod gan lawer, wedi gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ers Ebrill 1996, yn wreiddiol yn y Gyfadran Addysg, ar ôl treulio 12 mlynedd yn Adran Addysg Cyngor Sir Morgannwg Ganol. Ers mis Ionawr 1998, mae wedi gweithio yn Uned Bolisi'r Cyngor yn cynorthwyo, ac yna'n gyfrifol, am ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn gorfforaethol.

Mae David yn gadarn iawn o'i farn mai mater cydraddoldeb yw'r iaith Gymraeg, ac oherwydd ei



swydd gynhwysfawr fel Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg i'r Cyngor ers 2010, mae ef a'i dîm wedi ceisio sicrhau y caiff siaradwyr Cymraeg eu trin â pharch a thegwch, a derbyn sylw ym mhob rhan o fusnes cyhoeddus y Cyngor, yn union yr un modd â phobl sy'n dod o dan bob ffrwd Cydraddoldeb arall.

Efallai mai'r rhan fwyaf anodd o fod yn gyfrifol am y Gymraeg mewn sefydliad o'r fath yw pan aiff pethau o'i le. Mae David a'i dîm yn gorfod delio gydag unrhyw gwynion sy'n dod mewn i'r Cyngor o dan bob un o'r ffrydiau Cydraddoldeb, boed o ran Anabledd, Hil, yr iaith Gymraeg neu ba un bynnag o'r ffrydiau sydd dan sylw. Ond barn y tîm yw, pa mor boenus bynnag yw derbyn cwyn, does dim modd cydnabod na datrys y broblem os nad oes cwyn yn dod i'r amlwg.

Mae dyfodiad y Safonau Iaith Gymraeg yn mynd i fod yn her i bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru wrth gryfhau'r sefyllfa i unigolion, ond gobaith David a'i dîm

yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn sefyllfa sylfaenol gadarn wrth edrych i'r dyfodol oherwydd yr holl waith sydd wedi digwydd ers lansiad Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf y Cyngor ym 1998.

Un o ardal Maesteg yw David, o bentref Cwmfelin, ac yn byw yno gyda'i bartner a'i fam yn y tŷ wnaeth ei hen hen dad-cu adeiladu ym 1903. Mae ei deulu wedi bod yn siaradwyr Cymraeg erioed gyda chysylltiadau yn yr Hen Blwyf yng Nghwm Llynfi, pentref Bryn ger Porth Talbot a Threherbert yn y Rhondda yn mynd yn ôl i ganol y 18fed ganrif o leiaf. Syndod i lawer felly yw gwybod fod ei achau gwreiddiol personol, oherwydd iddo gael ei fabwysiadu, o swydd Hampshire yn Lloegr a'i fod yn Sais bob 10 mlynedd yn ôl y Cyfrifiad!

Ar lefel bersonol, mae'n frwd iawn o ran rygbi, yn enwedig pencampwriaeth y Chwe Gwlad ac yn cyfaddef ei fod yn ffan mawr (iawn) o raglenni ffug-wyddonol ac wedi cwrdd â llawer o actorion o'i hoff raglenni teledu a ffilmiau, o Brydain Fawr ac yn rhyngwladol.

Yn fachgen ifanc yn y 70au mynychodd safle meithrin Y Diwlith, ac yna Ysgol Tŷ Derwen yng Nghwm Llynfi cyn symud ymlaen i Ysgol Gyfun Llanhari o 1978 i 1985 i barhau â'i addysg Gymraeg. Aeth ymlaen i gael swydd gydag Adran Addysg Cyngor Sir Morgannwg Ganol yn syth ô'r ysgol ond parhaodd â'i addysg yn rhan amser wrth weithio, yn ennill BA (Anrh) mewn Rheolaeth Gyhoeddus o Brifysgol Morgannwg ar ddiwedd y 90au ac yna MSc mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o Brifysgol Caerdydd yn 2008.

Y llynedd, cyhoeddodd lyfr am enwau Cymraeg lleoedd yn Sir Caerffili. Cyfrol ddwyieithog yw hon yn dwyn y teitl "Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili/*Place Names in Caerphilly County Borough*" ac mae ar gael ar-lein neu fel copi caled. Mae 113 o enwau lleoedd yr ardal wedi eu cynnwys, ond yn barod, mae un ychwanegol wedi dod i'r amlwg a bydd y fersiwn ar-lein yn cynnwys yr enw ychwanegol hwn cyn diwedd y flwyddyn.

Dysgodd lawer ohonom dipyn am enwau a tharddiad enwau trefi a phentrefi'r sir, ac yn Eisteddfod yr Urdd hynod o lwyddiannus eleni yn Llancaiach Fawr, gwelwyd cyflwyno map anhygoel a grëwyd gan yr artist Huw Aaron gyda help plant lleol yn deillio o'r wybodaeth o fewn y llyfr hwnnw.

Bunting, Newid Hinsawdd, a Neges i'r Llywodraeth



Daeth nifer o Gristnogion lleol i Siloh un bore Gwener braf, ynghyd ag aelodau staff Cymorth Cristnogol. Cyflwynwyd *bunting* arbennig iawn i Wayne David A.S., ffrwyth llafur plant ac ieuenctid a ddaeth i Eisteddfod Caerffili, a gwirfoddolwyr gwinio medrus o Fethel, Caerffili. Ar y *bunting* roedd delweddau a geiriau gan y genhedlaeth ifanc, yn rhannu eu pryderon am effeithiau newid hinsawdd led led y byd. Yn y llun mae Eirlys Thomas, Linda Sturgess, Eirlys Emery, a Tamsin Graves yn rhoi trefn ar y *bunting*.

Gofynnwyd i Wayne David gymryd camau o fewn ei swydd i gyfathrebu consyrn y plant a'r ieuenctid ynglŷn â phwysigrwydd ymateb i'r her i'w dyfodol a ddaw yn sgîl twymo byd-eang, colli tir amaeth, mudo rhyngwladol, tlodi a thywydd ansefydlog gydag eithafion tymheredd, sychder, a glawogydd.

Mae Cymorth Cristnogol wedi llunio taflen 'One million ways' sy'n amlinellu yr amrywiaeth camau y gall unigolion ac eglwysi eu cymryd i leihau allbynnau carbon ac i fyw'n fwy cynaliadwy; mae yna boster Cymraeg a llyfryn straeon i arddegwyr ar gael hefyd – cysylltwch â christianaid.org.uk/cymru, neu ffoniwch 029 2084 4646 am fwy o fanylion.

Mae staff Siloh yn lleihau eu hallbynnau carbon trwy ddod i Ystrad Mynach ar gefn beic mor aml ag sy'n bosib – ac maent yn ddiolchgar iawn bod trenau'n mynd â hwy a'u beiciau trwy fynydd Caerffili yn lle bod yn rhaid iddynt fynd drosto!



Tamsin Graves

Caffi Parkinson's Cymraeg

Bydd cangen newydd o'r elusen **Parkinson's UK Cymru** yn cychwyn ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y de-ddwyrain yn yr Hydref. Y bwriad yw cynnal cyfarfod/caffi bob tri mis, gan fod y caffis arferol eisoes yn cael eu cynnal yn fisol. Byddwn yn dewis lleoliad gwahanol bob tro, yn dibynnu ar ba ardaloedd y daw'r aelodau newydd, o fewn siroedd Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Penybont ar Ogwr, Caerffili, a Chaerdydd a'r Fro.


Ar gyfer ein cyfarfod cyntaf cynhelir cinio yn nhafarn yr Ivor Arms, Brynsadler, Pontyclun, ar ddydd Iau, Tachwedd 19eg, am 1.00 o'r gloch y prynhawn. Bydd croeso cynnes i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg sy'n dioddef o'r clefyd Parkinson's, ac wrth gwrs eich gofalwyr/perthnasau/cyfeillion, boed yn ddi-Gymraeg neu'n siaradwyr Cymraeg.

Os hoffech chi ymuno â ni, er mwyn gwneud ffrindiau newydd, a rhannu gwybodaeth a phrofiadau trwy'r Gymraeg, cysylltwch â:

Rebecca Lydon o Parkinson's UK Cymru: 0844 225 3714 rlydon@parkinsons.org.uk neu Siân Cadifor ar 01443 238615 scadifor001@btinternet.com erbyn Medi 30ain


Atebion Posau'r Plant ar dudalen 7

dime - Medi	siwger - gwersi
losyg - ysgol	llander - darllen
roath - athro	fyllawr - llyfrau
throbads — dosbarth	fallyste - ystafell



Colofn Dafydd Islwyn

Mae Cymru yn llawn englynion a dydy Caerffili ddim yn eithriad. Cystadleuodd 347 yng nghystadleuaeth yr englyn yn Y Genedlaethol yn y dre yn 1950. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, 71 englyn a dderbyniwyd ym Mryn Bach! Nid oedd Ymryson y Beirdd wedi ei sefydlu yn 1950 ar raglen Y Babell Lên, cynhaliwyd honno yn Neuadd Ysgol Ramadeg y Merched. Yn Y Babell Lên yng Nghwm Rhymni cafwyd Ymryson lle rhoddwyd deg marc i un englyn ar ddeg!



Yn ystod eisteddfod 1950 fe arosodd W.R.Evans, Waldo ac eraill yn Ysgol y Gwindy yn ôl Rhaglen y Dydd - Ysgol Gymraeg Caerffili heddiw. "Sbectol Waldo" oedd testun englyn cywaith Ymryson y Beirdd Eisteddfod Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid un flwyddyn. Dyma englyn Ceredigon,

Wil annwyl, a weli honno – oes aur
Y saint drwyddi'n pefrio?
Nid yw'r byd i gyd o'i go'
O'i weld drwy sbectol Waldo.

Ceir hanes gosod y dasg yn hunangofiant W.R., "Fi Yw Hwn" (1980).

Bu T.Llew Jones ar ymweliad ag Ysgol Gymraeg Caerffili nifer o weithiau. Mis Medi 1976 ef agorodd y tymor newydd yn hanes Cymdeithas Gymraeg Caerffili. "Y Ceiliog Gwynt" oedd y testun yr englyn a enillodd wobr y Brifwyl iddo yn 1950.

Hen wylwyr fry mewn helynt - y tindroi
Tan drawiad y corwynt;
Ar heol fawr y thrownt
Wele sgwâr polis y gwynt.

Iolo oedd ei ffugenw - defnyddiodd enw ei fab ieuengaf, Iolo Ceredig, a oedd yn dair oed ar y pryd. Erbyn heddiw mae ef yn cael ei gydnabod yn chwaraewr gwyddbwyll rhyngwladol. Yn 1980 cyhoeddodd Gwasg Gomer, "A Chwaraei di Wyddbwyll?" gan Iolo a'i dad. Ceir hanes gweithio'r englyn adnabyddus yn hunangofiant T.Llew Jones, "Fy Mhobl i" Gwasg Gomer 2002.

Ffrind mawr i T.Llew oedd Dic Jones, Yr Hendre, Blaenannerch. Ymwelodd Dic hefyd ag Ysgol Gymraeg Caerffili. Teithio ar y bws Traws Cambria o Gaerdydd i Gaernarfon, trwy Ganolbarth Cymru, oeddwn ddiwedd mis Hydref un flwyddyn pan ddarllenais ei englyn, "Ar y Pumed o Dachwedd".

'Waeth faint o goelcerthi fydd - i goffau
Guy Fawkes, y mae beunydd
Â Chalan Gaea'n y gwŷdd,
Well tân gwyllt yn y gelltydd.

Prifardd arall a fu'n sgwrsio â rhai o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili oedd T.James Jones. Mae ei englyn "Y Cof am Gwm Alltcafau" ac am T.Llew Jones yn un gafaelgar,

Ble ar ddaear ma'r llais arian, â strancs
Ei storïau o mor ddiddan
Â champe geiri' i gân?
Co fe! Yng Nghwm Alltcafau.

Tracy Staines (Smart gynt)

Rydym yn ddiolchgar i Mrs Diane Smart o Enau'r-glyn, Caerffili, am rannu llwyddiant ei merch, Tracy, gyda ni.

Ar wefan *Global Fund* gwelwn fod Tracy, Tracy Staines bellach, wedi'i hapwyntio'n Bennaeth Awdit lle mae'n helpu i drefnu sut i "gyflawni effaith ddyfnach yn y frwydr yn erbyn y clefyd AIDS, y diciâu a malaria". Mae hi'n Gymrawd Sefydliad y Deyrnas Gyfunol ar gyfer Cyfrifwyr Siartredig ac wedi ennill diploma ôl-radd Sefydliad Siartredig Gwarantau a Buddsoddiadau.



Mae Tracy bellach yn Gyfrifydd Siartredig gyda dros 15 mlynedd o brofiad mewn awdit a rheolaeth risg. Bu'n Ddirprwy Bennaeth Awdit yn Santander, Llundain, lle bu'n arweinydd y tîm rheoli cyllideb ac awdit ar gyfer un o fanciau mwyaf Ewrop. Ymunodd â Gwasanaeth Sifil y DG fel uwch rheolwr awdit yn 2009. Ac ar hyn o bryd mae hi'n byw ac yn gweithio yn Genefa, yn briod ag Andy sydd yn ddiplomat, ac yn caru rygbi, dringo mynyddoedd a sgïo.

Profodd lwyddiant mawr ers ei dyddiau cynnar yn Ysgol Ifor Bach ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni lle rhagorodd mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol yn ogystal â'i gwaith academaidd. Rhedodd mewn rasys trawsgwlad a chwarae hoci a phêl-rwyd dros yr ysgol. Roedd hefyd yn hoff o gerddoriaeth ac o ddrama gan ymddangos yn y sioeau *Grease* a *Fiddler on the Roof*.

Wedi gadael yr ysgol aeth Tracy i Brifysgol Sussex, lle astudiodd Saesneg a Gwleidyddiaeth Americanaidd, gan ennill gradd anrhydedd 2.1. Tra roedd yno chwaraeodd yn nhim rygbi'r Brifysgol ac, mae yn dal i fod yn cefnogi tîm rygbi Cymru - yn selog!

"Mae gan Tracy etheg gwaith ryfeddol ac agwedd angerddol dros genhadaeth y *Global Fund*," meddai Mouhamadou Diagne, Arolygwr Cyffredinol y *Global Fund*. "Mae hi wedi dangos gallu amryddawn gwych ynglŷn ag arweinyddiaeth tîm, rheolaeth perthynas â chleientiaid effeithlon a sgiliau technegol cryf a fydd yn fodd o gryfhau'r gwaith o gyflawni swyddogaeth y strategaeth awdit newydd".

Mae Nicola, chwaer Tracy, yn ymgymryd â gwaith ymchwil i Sefydliad Prydeinig y Galon. Efallai cawn wybod amdani yn un o rifynnau'r dyfodol. Edrychwn ymlaen hefyd at weld rhieni balch eraill yn codi i'r her o roi gwybod i ni ble mae eu plant nhw nawr!

Drych gan Frân Wen

25/09 Sherman Cymru, Caerdydd

26/09 Sherman Cymru, Caerdydd 08/10 Garth Olwg, Pontypridd




Mae Cwmni'r Fran Wen yn falch o gyhoeddi taith Drych – drama newydd wedi'i chyfarwyddo gan Ffion Haf, fydd yn teithio Cymru yn nhymor yr Hydref 2015. Drama Gymraeg rymus yw Drych am ddau unigolyn (Bryn Fôn a Gwenno Hodgkins) sy'n sgwrsio'n ddiwyd am ryfeddodau a chymhlethododau bywyd a hynny ar ddarn o dir anial yng nghanol unlle.


Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Helo bawb! Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r haf. Yng Nghymru, un o brif ddigwyddiadau’r haf yw’r Eisteddfod Genedlaethol, wythnos gyntaf mis Awst. Eleni roedd yr Eisteddfod ym Meifod yn agos i’r Trallwng. Fuoeh chi yno?

Wel wrth gwrs fe aeth Y Pwyllgor i’r Eisteddfod. Mae’r Cadeirydd a Cadwgan ap Seisyll yn aelodau o Orsedd y Beirdd ac maen nhw’n mynd i bob seremoni yn ystod yr wythnos. Mae’r ddau yn gwisgo’r wisg werdd er bod y Cadeirydd yn hoffi gwisgo fel Archdderwydd yn ei amser hamdden (ond stori arall yw honno!) Mae Blodwen yn cael dod i’r Eisteddfod gyda’r Cadeirydd. Maen nhw’n aros ar y maes carafannau mewn hen, hen garafan sy’n gwneud i bawb arall chwerthin. Does dim dŵr a dim trydan yn y garafan ond dydy’r Cadeirydd ddim yn fodlon gwario arian ar brynu un newydd. Druan o Blodwen! Mae’n rhaid iddi hi goginio popeth ar stôf fach nwy gyntefig ac maen nhw’n defnyddio canhwyllau gyda’r nos. Mae bwyd hyfryd ar y Maes felly does dim rhaid coginio, ond mae’r Cadeirydd yn dweud bod y bwyd yn rhy ddrud.



Dydy tad y Cadeirydd ddim yn dod i’r Eisteddfod ond beth am Iestyn? Roedd Iestyn eisiau dod i’r Eisteddfod am ddau reswm. Yn gyntaf roedd e eisiau mynd i Maes D ble mae pob math o weithgareddau diddorol ar gyfer pobl sy’n dysgu siarad Cymraeg. Yn ail.....wel yn ail wrth gwrs roedd Blodwen. Doedd Iestyn ddim eisiau wythnos gyfan heb weld Blodwen, ond roedd problem. Does dim arian gyda Iestyn felly sut roedd e’n mynd i dalw am lety yn ardal yr Eisteddfod? Yna fe gafodd Blodwen syniad. Doedd dim lle i Iestyn yn hen garafan y Cadeirydd – wel a dweud y gwir mae’r garafan mor fach bod rhaid i Blodwen gysgu ar y llawr – ond fe allen nhw godi pabell fach i Iestyn wrth ochr y garafan.



Fyddai’r Cadeirydd yn cytuno? Wrth lwc, mae Blodwen yn gwybod sut i drafod ei gŵr. ‘Cariad bach,’ dwedodd Blodwen yr wythnos cyn yr Eisteddfod pan oedd y Cadeirydd mewn hwyliau da ac yn edrych ymlaen at fod yn yr Orsedd, ‘mae cyfle gyda chi i wneud tro da dros rywun sy’n dysgu Cymraeg ac efallai bydd yr Archdderwydd yn clywed am hyn.’ Mae’r Cadeirydd yn addoli’r Archdderwydd felly cytunodd e i Iestyn gysgu yn y babell fach ar y maes carafannau.

Bob dydd pan oedd y Cadeirydd mewn rhyw seremoni ar y Maes neu yn y Babell Lên, roedd Iestyn a Blodwen gyda’i gilydd. Roedden nhw’n cael amser da, ond un dydd edrychodd Iestyn ar Blodwen a dweud, ‘Allwn ni ddim mynd ymlaen fel hyn.....’

*un o brif ddigwyddiadau : one of the main events eleni ; this year Y Trallwng : Welshpool
Gorsedd y Beirdd : the assembly of bards, the druids cyntefig : primitive
gwisgo’r wisg werdd : in green robes Archdderwydd : archdruid, chief druid pawb
arall : everyone else ddim yn fodlon : not willing canhwyllau : candles gyda’r
nos : in the evening Y Maes : the Eisteddfod field rhy ddrud : too expensive
am ddau reswm : for two reasons Maes D : the learners centre pob math o
weithgareddau diddorol : all kinds of interesting activities i dalw am lety : to pay for
accommodation pabell : tent wrth ochr : beside cytuno : agree sut i drafod ei
gŵr : how to handle her husband mewn hwyliau da : in a good mood yn
edrych ymlaen at : looking forward to cyfle : opportunity i wneud tro da : to
do a good turn addoli : worship y Babell Lên : the Literary Pavilion
allwn ni ddim mynd ymlaen fel hyn : we can’t go on like this*

!!!Gwasanaeth yn y Gymraeg!!!
TACSI GORSAF CAERFFILI



Cysylltwch a KEITH ar
 02922 362364 neu 07914 355195
[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)
 Defnyddiwch eich Cardiau Debyd/Credyd



Enthusiastic Amateur Photographers
 All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
 Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

Merched y Wawr Cwm Rhymni

Nos Fercher 16 Medi am 7.30

Noson gyda'r bardd Clare E. Potter

Clwb Rygbi Fleur De Lys,
 27-29 Stryd Fawr, Fleur De Lys NP12 3U

✉ faircloughme@aol.com neu ☎ 02920 885151

Clwb Cerdded

Pob Dydd Mercher 10 -12



Ymunwch â'r clwb cerdded. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Morgan Roberts - Swyddog Prosiect Llais Menter Caerffili: 01443 802832

morganroberts@mentercaerffili.cymru

COLEG GWENT: Ysgolion Haf 30 awr ar 8 lefel
 Yn cynnwys 14awr o wersi anffurfiol 01495 333710

Lleoliad	Diwrnod	Amser	Dyddiad
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	21-22/11/15
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	05-06/03/16
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	14-15/05/16
Campws Pontypŵl	Llun-Gwener	8.45-17.00	25-29/05/16
Llanbed	Gwen-Sul	9.00-17.00	01-03/07/16

COLEG GWENT : Ysgolion Undydd.

Pob Cwrs am 5 awr ar ddydd Sadwrn

Lleoliad	Dyddiad	Ffôn
Canolfan Caldicot	03/10/15	01291426852
Ysgol Cwm Rhymni	17/10/15	01633612245
Canolfan Abertyleri	07/11/15	01495355895
Campws Casnewydd	05/12/15	01495333710
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	09/01/16	01633647647
Ysgol Cwm Rhymni	06/02/16	01633612245
Canolfan Trefynwy	27/02/16	01600712822
Canolfan GlynEbwy	16/04/16	01495455300
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	21/05/16	01633647647

mentercaerffili.org

Rhandir Menter Caerffili

Pob Dydd Gwener 10-12



Oes diddordeb gyda chi mewn garddio? Hoffech chi fod yn rhan o randir Menter Caerffili? Cwrdd bod Dydd Gwener am 10am, byddwn yn cwrrd yn y rhandir ar Stryd y Felin ger Parc Morgan Jones Caerffili.

Am fanylion cysylltwch / For details contact:
 01443820913 morganroberts@mentercaerffili.cymru



Llun y Mis



Lorna Tedstone yw artist y mis hwn. Yn wreiddiol o'r Coed Duon bydwraig wedi ymddeol yw hi ac mae nawr yn byw ym Medwas. Mae'n arbennig o hoff o baentio tirluniau mewn olew neu acrylic. Llun yw hwn mewn acrylic o olygfa ger Pont Nedd Fechan. Profodd ein cyfres "Llun y Mis" yn werthfawr i'n artistiaid. Gwerthwyd llun rhifyn yr Eisteddfod i un o'n darllenwyr a'r llun uchod yn ystod yr Wyl Flodau.

S4C

Noddir gan



y gwyll.
hinterland

9.00

13 Medi

Dirgelwch a
chelwyddau, mae'r
cyfres dditectif yn ôl!

#ygyll
s4c.cymru